

Cyngor Cymuned Llanllyfni **Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth y 9ed o Fawrth 2010**

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr: Hefina MW Roberts (Cadair), Gwyndaf Roberts, Richard Evans – Llanllyfni; Harry W Owen, D Martin Williams, Dafydd Glyn Owen – Talysarn; Dyfed Edwards (Cyng Sir), Ifan Glyn Jones, Iwan Lloyd Williams, Elwyn Jones-Griffith – Penygroes; Eurig Evans – Nebo; T Les Jones – Nantlle.

Byddwn yn ychwanegu'r lleoliadau at y restr cais am flychau graean – lle gwyrdd ger Neuadd Talysarn, Ffordd Ty Cerrig Nebo, Llys Llywelyn Nantlle, Ysgol Nantlle.

Caniatawyd y ceisiadau cynllunio canlynol gan Gyngor Gwynedd: Bryn Bugeiliau Nebo; Cais llawn Gorsaf Heddlu newydd Penygroes; Bodychain Uchaf, Llanllyfni; 20 Ffordd Hyfrydle, Talysarn.

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Gwynedd parthed lloches Bws Nebo. Maent yn edrych i mewn i ymholiad y Cyngor am dwtio'r wal yno a chael lle i roi bin ysbwriel.

Bydd Cyngor Gwynedd yn monitro cyflymder yn Nantlle yn dilyn cwynion am or-yrru.

Derbyniwyd llythyr yn hysbysu bod cais cynllunio ar gyfer gwaith trin Trwytholch yn safle tirlenwi Cilgwyn.

Derbyniodd y Cyngor lythyr yn hysbysu bod lloches bws newydd yn cael ei leoli yn Nhalysarn fel rhan o'r cynllun 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol'.

Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu rhoi cyfyngiad 50 mya o Inigo Jones at Penygroes (hen ffordd A487). Roedd y Cynghorwyr yn bryderus bod damweiniau yn digwydd yno o hyd, a bod angen pwysu am gyfyngiad 40mya. Byddai'n well hefyd cael symud yr arwydd 30 mya ryw 200 llath ymhellach allan o'r pentref. Byddwn yn gofyn am gyfarfod safle gyda'r swyddog i drafod.

Adroddiadau Pentrefi.

Penygroes Trefniadau casglu ysbwriel – derbyniwyd cwynion bod y lori ailgylchu yn casglu o'r pentref am 6.00 y bore ac yn gwneud swm wrth gasglu poteli y tu allan i dai ym mhen uchaf Penygroes. Byddwn yn tynnu sylw'r Cyngor bod cwynion a phryder

Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd am rybudd ar y ffordd osgoi fod pobl yn croesi wrth fynd ar y llwybr drosodd o Spokane – mae ceir yn gyrru'n gyflym.

Llanllyfni Tipio anghyfreithlon Lon Coed Cae Du – byddwn yn gofyn am arwydd ffordd i geisio atal hyn.

Talysarn Cwynion am faw cwn; Gor-yrru heibio'r cae chwarae; Ysbwriel ar y Skate Park a'r cae pel droed. Byddwn yn cysylltu gyda'r awdurdodau perthnasol.

Nebo Arwydd Ffordd Nebo ger Bryn Golau wedi torri. Byddwn yn gofyn am arwydd newydd.

Dyffryn Nantlle Roedd pryder fod cyflwr Neuadd Ysgol Dyffryn Nantlle wedi bod allan o ddefnydd ers mis Awst.